Rwy'n falch iawn eich bod yn ystyried gwneud cais am rôl aelod ar un o’r paneli cynghori yma yn PecynUK.

PecynUK yw’r Gweinyddwr Cynllun gyfer y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (pEPR). Mae'n gorwedd o fewn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) sy'n lletya PecynUK ar ran pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Mae pEPR yn rhan o gynllun uchelgeisiol i leihau faint o becynwaith sy'n anodd ei ailgylchu neu na ellir ei ailgylchu, drwy osod ardoll ar y cynhyrchwyr a thrwy ddefnyddio'r ardoll yma i ariannu awdurdodau lleol i ddarparu atebion rheoli gwastraff effeithlon ac effeithiol ar gyfer gwastraff pecynwaith

Mae bod yn aelod o un o Grwpiau Cynghori PecynUK yn gyfle unigryw i fod ar flaen un o ddiwygiadau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol y Deyrnas Unedig. Yn rhinwedd eich swydd fel aelod, byddwch yn darparu adborth, argymhellion a chyngor technegol gwerthfawr a fydd yn cyfrannu at uchelgais y Deyrnas Unedig o bontio i economi cylchol a chyflawni sero net.

Ni fu'r angen am gynllun pEPR effeithiol sy'n symud cost rheoli gwastraff pecynwaith cartrefi i’r cynhyrchwyr erioed yn bwysicach, ac mae lansio PecynUK yn gam cyffrous ymlaen tuag at gyflawni hyn. Rydyn ni’n dal i ymrwymo i weithio'n agos ar draws y pedair gwlad, cynhyrchwyr a rhanddeiliaid ar draws y gadwyn werth casglu a phecynnu.

Gyda'i gilydd, mae gan bob un o'r pedair gwlad uchelgais o gyflawni cynllun pEPR teg a chydweithredol sy'n mynd i'r afael â heriau gwastraff pecynwaith ac sy'n gosod y sylfaen ar gyfer ymagwedd fwy cynaliadwy a chyfrifol at becynwaith yn y dyfodol.

Os ydych chi wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth yn y ffordd rydyn ni’n prisio ac yn defnyddio deunyddiau pecynwaith wrth inni adeiladu dyfodol mwy cynaliadwy, a bod gennych y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i gyfrannu at y grwpiau cynghori hanfodol hyn, darllenwch ymlaen i weld beth sydd ar waith.

**Dr Margaret Bates**

**Head of PackUK**